

**PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH**



PRENTISIAETH

CEFNOGI TEULUOEDD

PECYN GWYBODAETH 2023



Hoffem eich croesawu i Becyn Gwybodaeth Prentisiaethau Cyngor Gwynedd.

Os ydych chi'n chwilio am y cyfle perffaith i ddatblygu eich gyrfa ond ddim yn siŵr ble i ddechrau, dilyn Prentisiaeth yw'r cam nesaf i chi. Dim ond dechrau'r daith yw dilyn prentisiaeth gan ei fod yn gallu eich arwain i ddilyn nifer o lwybrau cyffrous, megis sicrhau swydd barhaol, neu ganiatáu i chi barhau i ddatblygu eich sgiliau gan ddilyn prentisiaethau ar lefelau uwch.

Rydym yn mawr obeithio y bydd y pecyn yn eich ysbrydoli i ddilyn prentisiaeth ac y bydd ein cyfleoedd yn apelio atoch chi. Diolch am gymryd y cyfle i ystyried ein cyfleoedd prentisiaeth, a pheidiwch ag oedi i gysylltu os oes angen unrhyw arweiniad pellach arnoch.

Gwnewch y dewis doeth. Dewiswch brentisiaeth gyda Cyngor Gwynedd.

Edrychaf ymlaen i ddarllen eich cais.

Alun Lloyd Williams

Arweinydd Talent a Phrentisiaethau Cyngor Gwynedd

BETH?	TUDALEN
BETH YW PRENTISIAETH ?	3
PRENTIS CYNGOR GWYNEDD	4
Y SWYDD	5
Y DYSGU	6
CYFLEOEDD	7
BOD YN BRENTIS	8
Y BROSES RECRIWTIO	9
I ORFFEN	10

FFEITHIAU

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu bron i 120,000 o breswylwyr bob dydd

Mae dros 6000 o staff yn gweithio yn y Cyngor

Mae'r Cyngor yn berchen dros 400 o adeiladau ar draws y Sir

Mae'r Cyngor yn cynnig dros 100 o wasanaethau

TROSOLWGW

Mae prentisiaeth yn gyfle i chi ddatblygu eich gyrfa drwy weithio gyda pobl profiadol, derbyn cymwysterau a chael cyflog yr un pryd!

Mae prentisiaethau wedi eu llunio o amgylch fframweithiau a safonau sydd yn gyfuniad o gymwysterau sydd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol.

Er mwyn i chi fod yn brentis bydd rhaid i chi fod mewn cyflogaeth. Byddwn ni fel eich cyflogwr yn cynnig profiadau yn y gweithle i chi yn y maes o'ch ddewis, a byddwn yn eich cefnogi i gwblhau eich prentisiaeth yn llwyddiannus.

Rydym ni fel Cyngor yn falch iawn o fod yn gallu cynnig cyfleoedd o'r safon uchaf i'n trigolion, ac yn edrych ymlaen i groesawu'n prentisiaid i'n sefydliad.

BETH YW CYFLOG PRENTIS?

OED	BLYNYDDOL	BOB MIS
16 i 17	£ 10,186.60	£ 848.88
18 i 20	£ 14,450.31	£ 1,204.19
21 i 22	£ 19,640.07	£ 1,636.67
23+	£ 20,103.10	£ 1,675.26

CWESTIYNAU CYFFREDINOL

Pwy sy'n cael gwneud cais am brentisiaeth?

Gall rhwyun wneud cais am brentisiaeth os ydyn nhw dros 16 mlwydd oed, yn byw yng Nghymru ac nad ydynt mewn addysg llawn amser.

Beth fydd hyd y brentisiaeth?

Mae ein prentisiaethau yn cymryd rhwng 24 a 36 mis i'w gwblhau, yn ddibynnol ar ofynion penodol y cymwysterau a'r lleoliadau.

Sawl awr sy'n rhaid i brentis weithio?

Rhaid i Brentis gael ei gyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos. Mae ein prentisiaethau ni fel arfer yn llawn amser, sef 37 awr yr wythnos.

Oes yna gyfyngiad o ran oedran?

Na, ond mae pobl ifanc rhwng 16 i 19 oed yn cael blaenoriaeth.

Pa gymhwyster byddwch yn ei astudio?

Bydd hyn yn dibynnu ar y llwybr byddwch yn ei ddilyn. Mae'r fframweithiau Prentisiaethau yn cynnwys cymwysterau o bob lefel.

Ble fydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal?

Byddwch yn cael eich ryddhau o'r gwaith i astudio mewn Coleg neu Brifysgol neu byddwch yn dilyn rhaglen dysgu o bell os yw'r ddarpariaeth yn y gweithle yn unig.

BUDDIANNAU

- 26.5 diwrnod o wyliau blynyddol
- + 8 diwrnod gwyl y banc blynyddol
- Gweithio yn hyblyg - Gweithio o adref, yn y swyddfa neu cymysgedd o'r ddau
- Amodau a thelerau gwaith gorau yn yr ardal
- Elwa o ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu yn fewnol ac allanol
- Manteisio ar gynllun beicio i'r gwaith
- Bod yn rhan o'r undeb credyd
- Elwa o ddisgownts mewn siopau lleol a chenedlaethol
- Cymryd mantais o'r Cynllun Chwarae Plant os oes gennych chi blant
- Cefnogaeth i chi gael bywyd iach drwy gefnogi nifer o fentrau gwahanol ar draws y Sir.

LLWYBR PRENTISIAETH

- Profiadau gwerthfawr yn y gweithle
- Gweithio tuag at ennill cymhwysterau
- Derbyn cyflog teg tra'n dysgu

BE SY'N BWYSIG?

Dyma'r pethau sydd yn bwysig i'w cofio wrth fod yn brentis gyda'r Cyngor:

- Dangos yr ymddygiad a'r agwedd cywir
- Dangos ymrwymiad i'r gwaith
- Cyfrannu tuag at rhoi y gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd
- Gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm
- Cyfathrebu efo hyder
- Bod yn barod i ddysgu pethau newydd
- Deall be sydd angen i weithio i'r Cyngor

EIN ADDEWID I BOB PRENTIS

Byddwn yn sicrhau ein bod ni yn rhoi blaenoriaeth i'r pethau yma:

- cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Cyflog da a dilyniant gyrfa clir
- canolbwyntio ar lesiant
- Hyblygrwydd yn eich ffordd o weithio
- Rhoi ystyriaeth llawn i amrywaith a newid hinsawdd

TROSOLWG

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar, sydd yn rhan o Adran Plant a chefnogi teuluoedd, yn darparu gwasnaethau i deuluoedd plant ifanc 0-4 oed, mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd eraill, ar draws Wunedd.

Mae'r Tim Cefnogi Teulu yn rhan allweddol o'r Uned Blynyddoedd Cynnar, ac yn gweithio yn benodol i gefnogi rhieni.

Mae gwaith y Tim yn cynnwys gweithio 1:1 gyda rhieni a'u plant, ar becynau/strategaethau penodol yn y cartref, neu leoliad penodol, ac hefyd cynnig grwpiau, i ddatblygu sgiliau rhieni.

Mae'r swyddogion yn cydweithio yn agos iawn yn aml asiantaethol gyda nifer o wasnaethau a thimau eraill - ymwelwyr iechyd, swyddogion datblygiad cynnar, tîm plant, swyddogion lleoliadau gofal plant, Y tim athrawon, a nifer o wasnaethau arbennigol.

Y GWAITH

- Profiad, efo chefnogaeth swyddogion y Tîm i ddatblygu sgiliau gweithio efo rhieni a'u plant.
- Profiad efo chefnogaeth swyddogion y Tîm i gynllunio pecynnau penodol i gefnogi datblygu sgiliau rhiantu.
- Profiad o gynllunio a threfnu sesiynau ar gyfer plant a'u rhieni, gan gydweithio yn agos efo aelodau'r Tîm.
- Profiad o gydweithio yn agos efo swyddogion, asiantaethau a mudiadau o fewn y Blynyddoedd cynnar.
- Gweithio ar draws y Sir a cael y profiadau o weithio yn aml asiantaethol.
- Datblygu sgiliau creadigol yr unigolyn, drwy ddatblygu syniadau ac adnoddau efo chefnogaeth swyddogion y Tîm.
- Mynychu hyfforddiant ychwanegol, a sesiynau gwybodaeth perthnasol i waith y Tîm.
- Mynychu cyfarfodydd Tîm a chyfarfodydd goruchwyllo i'r Tîm, ac unrhyw gyfarfodydd perthnasol eraill.
- Derbyn a defnyddio gwybodaeth am wasanaethau arbenigol, a dod i ddeall sut i weithio yn effeithiol a hwy, i gefnogi rhieni a'u plant.
- Profiad o weithio efo teuluoedd gan roi y plentyn yn Ganolog yn ystod y gefnogaeth.

YR UNIGOLYN

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â diddordeb yn y maes plentyndod cynnar er mwyn dysgu a datblygu eu sgiliau wrth weithio, gyda phlant 0-4 oed a hyn, a'u rhieni. Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n gallu cyfathrebu yn dda, sydd yn hyderus, dangos empathi, yn sensitif, gweithio fel rhan o dîm, a dangos eu potensial i lwyddo fel prentis.

Defnyddio
asesiadau ar gyfer
datblygu
cynlluniau
personol

Cefnogi
teuluoedd i
ddatblygu sgiliau
magu plant

cymorth i blant a
phobl ifanc sy'n
byw gyda'u
teuluoedd

Hyrwyddo dulliau
cadarnhaol o
gefnogi
ymddygiad

Hyrwyddo a
chefnogi sgiliau
lleferydd, iaith a
chyfathrebu

Hybu iechyd

Ymwybodol o
bolisiau
allweddol

Understand how
to protect
children's welfare

TROSOLWG O'R BRENTISIAETH

TEITL:	Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
LLEOLIAD:	Grŵp Llandrillo Menai
HYD:	2 flynedd
DULL:	Cymysgedd o rhithiol a wyneb i wyneb

TROSOLWG:

Mae'r Brentisiaeth hon yn integreiddio dysgu academaidd ac yn darparu profiadau gwerthfawr i'r unigolyn llwyddiannus fod yn gweithio yn y maes. O ganlyniad, bydd prentisiaid yn ennill profiadau ymarferol ac yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r maes 'Gofal Cymdeithasol: Ymarfer - Plant a Phobl Ifanc'.

Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen gadarn i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, a'u dealltwriaeth o ymddygiadau, sgiliau a ymarfer dysgu a datblygu a chwarae, o fewn darpariaeth gofal plant.

Bydd y Prentisiaid yn derbyn gwersi theori yn rhithiol gan Grŵp Llandrillo Menai ac wedyn yn cyd weithio efo swyddogion y Tîm Datblygiad cynnar, a swyddogion eraill o fewn yr Uned Blynnyddoedd Cynnar. Bydd y Prentisiaid yn gweithio allan yn y maes ac hefyd yn y swyddfa, i roi'r hyn sydd wedi ei ddysgu ar waith.

Mae yna nifer o fuddiannau wrth wenedd prentisiaeth yn Cyngor Gwynedd gan gynnwys

1

Datblygu sgiliau sydd yn hanfodol i'r swydd

Tra yn gweithio gyda staff profiadol, bydd cyfle i chi ddysgu gan aelodau o'r tîm, datblygu eich sgiliau a magu hyder yn eich maes.

2

Ennill profiadau gwerthfawr

Wrth i chi ymgymryd a rôl prentis bydd cyfle i chi ddysgu am eich gyfrifoldebau wrth i chi weithio. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gennych brofiad blaenorol yn y maes, ac yn cynnig y cyfleoedd gorau posib i chi ddysgu!

3

Cwblhau cymwysterau cydnabyddedig yn eich maes

Mae'r cymwysterau rydych yn eu dilyn yn sicr o agor drysau newydd i chi. Maent yn gymwysterau sydd yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr, ac mae meysydd ein prentisiaethau yn datblygu'n gyflym ar hyn o bryd.

4

Datblygu dy hun

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pob aelod o staff i barhau i ddatblygu eu hunain wedi iddynt sicrhau swydd. Bydd cyfle i chi ddatblygu eich hun ymhellach a manteisio ar ein cyrsiau mewnol unwaith byddwch yn y rôl.

5

Derbyn cefnogaeth a chymorth profiadol

Tra byddwch yn gweithio yn eich maes, bydd gennych fentor lleoliad, a mentor o'r Coleg a fydd yn cynnig cymorth i chi drwy'r cyfnod. Gallent eich helpu yn eich rôl o ddydd i ddydd, neu gyda'ch gwaith coleg - dim ond gofyn sydd angen!

6

Ennill cyflog tra'n gweithio

Os nad yw mynd i'r Coleg neu Brifysgol yn teimlo fel y cam naturiol nesaf i chi, bydd dilyn prentisiaeth yn eich galluogi i weithio, ennill cyflog, derbyn cymhwyster ac elwa o brofiadau gwerthfawr byd gwaith.

7

Gweithio mewn awyrgylch Gymreig

Gallwn gynnig y cyfle i chi weithio pob dydd mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r Gymraeg yn rhan o'n diwylliant ni, a byddai derbyn prentisiaeth gyda ni yn cynnig y cyfle perffaith i chi fod yn rhan o'r awyrgylch yma.

TROSOLWG O'R BROSES RECRWITIO

Dyma drosolwg o'r broses recriwtio

CAM	BETH?	SUT?	PRYD?
1	Cais ar-lein	<ul style="list-style-type: none">Cwblhau ffurflen gais ar-leinTynnu rhestr ferByddwn yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn unig	Mawrth 2023
2	Canolfan Recriwtio	<ul style="list-style-type: none">Bydd y canolfan recriwtio yn rhedeg dros ddiwrnodBydd y ganolfan yn gyfuniad o dasgau a chwestiynauBydd y ganolfan yn cael ei redeg wyneb i wyneb	Mai 2023
3	Penodi	<ul style="list-style-type: none">Byddwn yn penodi ar sail asesu'r wybodaeth o'r ganolfan recriwtioByddwn yn sgwrsio gyda'r geirda cyn penodi	Mehefin 2023 ymlaen

TROSOLWG O'R CANOLFAN RECRIWTIO

- Pwrpas ydi sicrhau eich bod yn cael y cyfle i ddangos eich potensial, ymddygiad ac agwedd
- Mi fydd y Ganolfan Recriwtio yn cynnwys tasgau a chwestiynau
- Mi fydd y tasgau yn rhoi cyfle i chi ddangos eich ymddygiad ac agwedd
- Byddwn yn rhoi copi o'r cwestiynau ychydig cyn y cyfweliad
- Mi fydd disgwyl i chi ateb un o'r cwestiynau yn y Saesneg
- Peidiwch â phoeni, mi fyddwn ni'n cyflwyno'r disgwyliaid yn llawn i chi ar y dechrau

AM FWY O WYBODAETH



www.instagram.com/prentiscg



www.facebook.com/prentiscg



www.twitter.com/talentgwynedd



prentisiaethau@gwynedd.llyw.cymru



www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

BETH NESAF?

1. Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i ddeall mwy am y Cynllun Prentisiaethau
2. Gwnewch ymchwil i mewn i'r Cyngor ac i'r swydd
3. Agorwch gyfrif ar Wefan Swyddi y Cyngor
4. Dilynwch y Canllawiau Cais. Os hoffech gefnogaeth wrth ysgrifennu eich cais cysylltwch hefo Gwaith Gwynedd ar: 01286 679211 neu mi fedrwch chi e-bostio gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru
5. Cofiwch am y dyddiad cau

Gobeithio bod y wybodaeth yn y pecyn wedi eich ysbrydoli i geisio am y swydd

Gwnewch y dewis doeth ar gyfer eich dyfodol

Dewiswch Brentisiaeth yn Cyngor Gwynedd

POB LWC !